



ATODIAD 1

Safonau'r Gymraeg Adroddiad Blynyddol 2023/24

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg hefyd.

Cynnwys

Welsh Language Standards Annual report 2023/24	1
1. Introduction	2
2. How the council complies with the Welsh Language Standards.....	2
3. Service delivery.....	3
4. New developments.....	5
5. Policy-making standards	5
6. Operational standards.....	6
7. Record-keeping standards	7
8. Complaints.....	7
9. Employee skills and training	8
10. New and Vacant Posts	11
11. Reception services: contact centres and telephone contact centres	12
12. Equality Impact Assessments (EIAs)	13
13. Promoting and raising awareness of the Welsh language and Welsh culture.....	13

1. Cyflwyniad

Mae'n ofynnol o dan Safonau'r Gymraeg fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSPO) yn llunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Gorffennaf bob blwyddyn.

Mae adroddiad blynyddol 2023/24 yn berthnasol i'r cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024 ac mae'n amlinellu'r ffyrdd y mae'r cyngor yn parhau i gydymffurfio yn ystod y cyfnod hwn yn ogystal â thynnu sylw at unrhyw ddatblygiadau/meysydd cynnydd newydd.

2. Sut mae'r cyngor yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

- 2.1 Nid yw'r cyngor yn cael ei herio ynghylch unrhyw safonau ar hyn o bryd.
- 2.2 Ar hyn o bryd, mae'r cyngor yn dibynnu ar y Rheolwr Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgysylltu i fod yn gyfrifol am ofynion y comisiynydd ers i swydd Swyddog y Gymraeg ddod yn wag fis Hydref diwethaf. Mae cyflogeion yn parhau i gael diweddariadau a gwybodaeth am y Gymraeg yn rheolaidd, o ran cydymffurfiaeth, mynediad at adnoddau megis hyfforddiant a gwella proffil yr iaith a'r diwylliant. Ym mis Ebrill 2023, gwnaed y modiwl e-ddysgu Cymraeg yn orfodol i bob aelod o'r staff.
- 2.3 Ym mis Mai 2023, dechreuwyd ar brosiect i adolygu'r opsiynau teleffoni Cymraeg sydd ar gael i bob cwsmer sy'n ffonio. Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo ar hyn o bryd i ddarparu'r opsiynau perthnasol i feysydd gwasanaeth, fel y gellir sicrhau cydymffurfiaeth lawn â Safonau'r Gymraeg. Yn ogystal, mae'r dudalen ar gyfieithu Cymraeg sy'n cynnwys manylion y fframwaith newydd wedi cael ei diweddarau ar gyfer staff, ac mae neges wedi ei hanfon allan drwy Bridgenders i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r diweddariad i'r ddarpariaeth hon.
- 2.4 Mae cefnogaeth i'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn parhau er mwyn cyflawni'r ymrwymadau a amlinellwyd. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi a hyrwyddo fideo y daith addysg cyfrwng Cymraeg, a'i farchnata'n barhaus, fel rhan o'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg. Mae dulliau cyfathrebu sylweddol, ar draws rhwydweithiau, wedi cael eu dylunio'n benodol i hyrwyddo'r Gymraeg, gyda'r gwaith yn parhau i wella tudalennau Addysg Gymraeg ein gwefan.
- 2.5 Mae Rheolwr y Gymraeg yn mynychu cyfarfodydd chwarterol gyda phartneriaid a sefydliadau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i rannu gwybodaeth, syniadau a phrofiad; yn ogystal ag amlygu blaenoriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar draws asiantaethau partner.

- 2.6 Fel rhan o'r rhaglen gynefino i reolwyr, mae'r Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn rhoi cyflwyniad ar Safonau'r Gymraeg a beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol i reolwyr. Pwrpas hyn yw sicrhau dealltwriaeth lawn o rwymedigaethau'r cyngor a'i gyfrifoldebau rheoli fel bod staff yn ymwybodol o'r safonau cydymffurfio ar gyfer y Gymraeg. Mae'r tudalennau mewnwyd staff yn dal ar gael er mwyn cael gafael ar unrhyw arweiniad sydd ei angen o ran cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae mewnflwch e-bost penodol ar gyfer y Gymraeg hefyd ar gael (WLS@bridgend.gov.uk) y gall staff ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r Gymraeg neu arweiniad sydd ei angen.
- 2.7 Mae'r cyngor yn darparu ystod o hyfforddiant ac adnoddau Cymraeg i staff, gan gynnwys cefnogaeth o ran cyrsiau cymunedol ar hyfforddiant Cymraeg, a thynnir sylw at hyn yn rheolaidd drwy negeseuon at staff. Mae dogfen gydymffurfio yn dal i fod ar gael, sy'n cynnwys manylion ynghylch y ffyrdd y byddwn yn cynnal y safonau darparu gwasanaethau, gweithredu, cadw cofnodion, hyrwyddo a llunio polisi perthnasol. Mae ein trefn gwyno hefyd ar gael ar ei gwefan, yn ogystal ag adroddiadau blynyddol blaenorol.
- 2.8 Rydym yn darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg yn ôl y gofyn, gan ymchwilio i gwynion a chynnig cefnogaeth i feysydd gwasanaeth i roi sylw i unrhyw faterion a uwchgyfeiriwyd. Rydym yn parhau i gymryd rhan mewn gweithdrefnau archwilio mewnol, a rhai allanol a gynhelir gan swyddfa'r Comisiynydd, i sicrhau ein bod yn cydymffurfio.

3. Darparu Gwasanaeth

Yn ystod 2023/24 parhaodd y Cyngor i gynnal ei ymrwymadau darparu gwasanaeth drwy wneud y canlynol:

- 3.1 Sicrhau bod gohebiaeth yn y Gymraeg yn cael ei hateb yn y Gymraeg os oes angen ateb. Rydym hefyd yn cyhoeddi gohebiaeth gyffredinol yn ddwyieithog neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, gan beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn dibynnu ar y dewis iaith a nodir. Mae'n ofynnol fod pob adran yn darparu cyfarchiad dwyieithog dros y ffôn a, lle bo'n berthnasol, bydd sgysiau'n parhau yn Gymraeg nes eu bod yn dod i ben, neu bydd galwyr yn cael eu trosglwyddo at staff sy'n siarad Cymraeg (os

dynt ar gael), neu at staff sy'n siarad Saesneg os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael a bod y cwsmer yn fodlon ar hyn.

Gweithredu un prif rif ffôn (01656 643643) ar gyfer rhai sy'n dymuno siarad â rhywun yn Gymraeg neu'n Saesneg. Os nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael pan wneir yr alwad, rhoddir gwybod i'r galwr, yn Gymraeg, pa bryd y bydd gwasanaeth o'r fath ar gael. Gall rhai sy'n dymuno siarad â rhywun yn Gymraeg adael neges yn Gymraeg hefyd, a byddwn yn nodi ar ddeunyddiau sy'n hysbysebu rhif ffôn CBSPO ein bod yn croesawu galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

- 3.2 Rydym yn parhau i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ar ddeunyddiau hysbysebu. Pan fyddwn yn gwahodd unigolion i gyfarfod, mae staff yn ymwybodol y dylid cynnig yr opsiwn Cymraeg yn y cyfarfod a rhoi'r trefniadau angenrheidiol ar waith i hwyluso hynny. Rhoddir yr un broses ar waith wrth anfon gwahoddiadau dwyieithog i gyfarfodydd/digwyddiadau cyhoeddus CBSPO (lle bo hynny'n berthnasol) a chyfarfodydd/digwyddiadau a ariennir gan CBSPO (50% neu fwy o gyllid). Gofynnir i unrhyw un sy'n rhoi cyflwyniad mewn cyfarfod a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, a rhoddir gwybod i fynychwyr bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg (os cawn wybod ymlaen llaw) yn y cyfarfod. Mae'r deunyddiau a ddefnyddir i hysbysebu'r cyfarfodydd/digwyddiadau hyn neu sydd i'w harddangos yn y cyfarfodydd/digwyddiadau hyn yn ddwyieithog hefyd.
- 3.3 Rydym yn sicrhau ein bod yn cynhyrchu deunyddiau marchnata, hysbysebu a chyhoeddusrwydd ar gyfer y cyhoedd (gan gynnwys datganiadau i'r wasg) yn ddwyieithog. Mae hyn hefyd yn berthnasol i ddogfennau corfforaethol sydd ar gael i'r cyhoedd, megis polisiâu a rheolau, yn ogystal â dogfennau ymgynghori. Y nod yw peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y dogfennau hyn. Yn achos fersiynau Saesneg ar wahân o ddogfennau sydd ar gael yn Gymraeg (lle bo gofyn iddynt fod ar gael), nodir eu bod ar gael yn y Gymraeg ar y fersiwn Saesneg. Hefyd, mae ffurflenni sydd ar gael i'r cyhoedd ar gael yn ddwyieithog neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os defnyddir fersiynau ar wahân, byddwn yn nodi ar y fersiwn Saesneg o'r ffurflen fod ffurflen Gymraeg ar gael.
- 3.4 Bydd CBSPO yn ymateb i negeseuon Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg pan fo angen ateb. Yn ogystal, pan fydd arwyddion strydoedd, arwyddion lleoedd ac arwyddion yn dangos y ffordd (gan gynnwys arwyddion dros dro pan fo hynny'n berthnasol) wedi'u difrodi neu wedi treulio, byddwn yn gosod arwyddion dwyieithog yn eu lle, gyda'r testun Cymraeg yn dod yn gyntaf. Yn ogystal, byddwn yn cynhyrchu hysbysiadau swyddogol yn ddwyieithog gyda'r testun Cymraeg yn dod yn gyntaf bob amser.

- 3.5 Mae gennym staff derbynfa sy'n siarad Cymraeg, a byddant yn gwisgo cortynnau i ddangos i gwsmeriaid eu bod yn gallu darparu gwasanaeth Cymraeg. Yn achos cyhoeddiadau sain dwyieithog, bydd y cyhoeddiad Cymraeg yn dod yn gyntaf bob tro. Rydym yn parhau i gynhyrchu agendâu a chofnodion ar gyfer cyfarfodydd y Cabinet a phwyllgorau yn ddwyieithog (safon 41). Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan.
- 3.6 Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi parhau i ddatblygu cynnwys a swyddogaethau dwyieithog ar y wefan yn unol â'r gofynion (safonau 52 a 56). Byddwn yn postio'n ddwyieithog ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn ymateb yn Gymraeg i ymholiadau Cymraeg, lle bo angen ateb.

4. Datblygiadau newydd

- 4.1 Rydym wedi parhau i wella a datblygu ein llwyfan ar-lein 'Fy Nghyfrif', sy'n galluogi tanysgrifwyr i roi gwybod am faterion megis rheoli plâu a goleuadau stryd drwy'r llwyfan, drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gwaith ar y gweill i roi mewnrwyd staff dwyieithog ar waith.
- 4.2 Drwy newid yr hyfforddiant e-ddysgu Cymraeg i fod yn fodiwl gorfodol ar gyfer staff, mae'r adran Dysgu a Datblygu yn gallu cael ffigyrau cwblhau ac anfon negeseuon atgoffa at staff sydd heb gwblhau'r hyfforddiant.

5. Safonau llunio polisi

- 5.1 Mae'n rhaid i staff ddefnyddio ein proses asesu effaith ar gydraddoldeb (EIA) i sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r Gymraeg pan fydd polisiâu'n cael eu diwygio neu eu datblygu. Mae'r broses hon yn sicrhau bod asesiad risg trylwyr yn cael ei gynnal, ac mae'n gofyn am gasglu tystiolaeth ac ymchwilio er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg dan anfantais. Mae hon yn ystyriaeth i rai sy'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd ymgynghori, ymgysylltu neu ymchwil y mae'r Cyngor yn ei gynnal, drwy ofyn iddynt a allai penderfyniad polisi (os yw'n berthnasol) effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg.
- 5.2 Mae Protocol Dyfarnu Grantiau wedi'i gymeradwyo, sy'n sicrhau bod penderfyniadau ar ddyfarnu grantiau yn amlygu'r effeithiau ar y Gymraeg, ac yna'n ystyried sut y gellir lleihau cymaint â phosib ar effeithiau niweidiol a

chynyddu effeithiau cadarnhaol cymaint â phosib. Mae hwn wedi cael ei rannu â swyddogion sy'n gweinyddu grantiau ac wedi cael ei gyhoeddi ar y fewnwyd fel canllaw ar gyfer staff CBSPO. Mae'r Protocol yn gyson â gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, y mae'n rhaid eu hystyried.

6. Safonau gweithredu

6.1 Ym mis Chwefror 2024, cynhaliodd y tîm Archwilio Mewnol arolwg o'n cydymffurfiaeth o ran y Gymraeg yn erbyn y safonau gweithredu. Yn ystod yr archwiliad, amlygwyd nifer o gryfderau a meysydd arferion da, fel a ganlyn:

- Mae arweiniad ar Safonau'r Gymraeg ar gael i bob aelod o'r staff drwy Bridgenders, sef cylchgrawn i staff a gyhoeddir yn chwarterol.
- Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi strategaeth pum mlynedd i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, yn ogystal ag Adroddiad Blynyddol ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r Safonau.
- Mae canllawiau cam wrth gam ar gael i staff drwy Bridgenders. Mae'r rhain yn esbonio sut y dylid dilyn y Fframwaith Cyfieithu Cymraeg.
- Cedwir cofnod o gwynion a geir gan y cyhoedd mewn perthynas â chydymffurfiaeth y Cyngor â'r Safonau.
- Roedd pob un o'r polisïau mewnol yn sampl yr Archwilydd yr oedd gofyn iddynt fod wedi'u cyfieithu yn unol â Safonau'r Gymraeg 105-111, ar gael yn y Gymraeg.

6.2 Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo i ehangu'r gwasanaethau dwyieithog sydd ar gael i staff. Mae hyn yn cynnwys mynediad at feddalwedd gyfrifiadurol sy'n gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg staff. Hefyd, mae gan gyflogeion fynediad at lofnodion e-bost dwyieithog a negeseuon allan o'r swyddfa dwyieithog. Anogir unigolion sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg i nodi hynny ar eu llofnod e-bost gan ddefnyddio'r logos cydnabyddedig perthnasol.

6.3 Mae'r adran Adnoddau Dynol yn asesu sgiliau Cymraeg ein cyflogeion, ac anogir staff i ddiweddarau eu datblygiad personol a sgiliau iaith yn barhaus. Mae hyfforddiant megis y Cwrs Cyfarch a'r Cwrs Mynediad ar gael i bob aelod o'r staff. Mae sawl pecyn e-ddysgu ar gael i'r staff, o ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg, i arweiniad ar Safonau'r Gymraeg. Bydd dewis iaith cyflogeion bob amser yn cael ei gofnodi er mwyn darparu gohebiaeth yn ymwneud â'u cyflogaeth, a gwahanol ffurflenni cysylltiedig â chyflogaeth, yn y Gymraeg yn ôl y gofyn.

- 6.4 Mae arwyddion dwyieithog wedi'u gosod ym mhob un o adeiladau'r Cyngor, gan gynnwys yn ein prif dderbynfeydd, a gall cwsmeriaid ddisgwyl gael eu cyfarch yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn dod yn gyntaf. Estynnir croeso i'n cwsmeriaid ddefnyddio ein gwasanaethau yn y Gymraeg, a gall pob aelod o'r staff rheng flaen gyfarch y cyhoedd yn y Gymraeg.
- 6.5 Byddwn yn darparu adroddiad ar y strategaeth pum mlynedd ym Mhwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet yn flynyddol. Cafodd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ei roi ar waith ym mis Medi 2022. Rydym wedi parhau i weithio gyda'r adran Addysg ac aelodau eraill i fwrw ymlaen â'r amcanion a nodir yn y cynllun 5 mlynedd. Rydym wedi parhau i wneud cynnydd o ran datblygu'r lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol. Mae grŵp llywio sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol gofal plant a gweithwyr trydydd sector wedi'i sefydlu ac yn cyfarfod yn rheolaidd i sicrhau darpariaeth effeithiol dros y tair blynedd nesaf.

7. Safonau cadw cofnodion

- 7.1 Cofnodir pob cwyn a gyflwynir mewn perthynas â'n cydymffurfiaeth fel rhan o'n system gwyno gorfforaethol. Mae Swyddog y Gymraeg hefyd yn cadw cofnodion o unrhyw ymholiadau neu ymchwiliadau cychwynnol a gyflwynir gan yr awdurdod lleol.
- 7.2 Mae'r adran Adnoddau Dynol yn monitro a chofnodi nifer y gweithwyr sy'n manteisio ar gyrsiau hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg – gweler adran 9 am ragor o fanylion. Yn ogystal, cedwir cofnod o sgiliau Cymraeg cyflogaion ac asesiadau swyddi newydd a swyddi gwag – gweler adran 10 am ragor o fanylion.
- 7.3 Cofnodir nifer y rhyngweithiadau Cymraeg sy'n digwydd dros nifer o sianeli (ffôn, wyneb yn wyneb a digidol) yn y ganolfan gyswllt gwasanaethau cwsmeriaid.

8. Cwynion

- 8.1 Cyflwynwyd cwyn i'r comisiynydd ar 18/04/2023 yn ymwneud ag arwyddion Saesneg yn unig. Mae'r gŵyn yn ymwneud â 4 arwydd ffordd rhwng Cwmfelin ac Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd. Honnwyd bod "Bridgend" wedi'i nodi yn Saesneg yn unig ar bob un o'r arwyddion. Cyflwynodd CBSPO ymateb i'r comisiynydd yn dangos tystiolaeth fod yr arwyddion dan sylw wedi bod yno ers rhwng 2008 a 2011, sef cyn i'r Safonau ddod i rym. Nid oedd ymchwiliad pellach yn ofynnol gan y comisiynydd.

- 8.2 Fe gafodd y Cyngor ei hysbysu gan y comisiynydd ar 17 Mai 2023 fod problemau'n ymwneud â'r llinell ffôn Gymraeg wedi cael eu dwyn i'w sylw. Nodwyd y byddai adolygiad llawn o'r IVR yn cael ei gynnal, gan gynnwys profion rheolaidd i sicrhau bod unrhyw broblemau'n cael eu datrys yn gyflym. Yn olaf, nodwyd y byddai'r adran yn gwneud ei gorau i recriwtio siaradwyr Cymraeg lle bo'n bosib, ac mae hynny wedi'i gyflawni erbyn hyn.

9. Sgiliau a hyfforddiant cyflogeion

9.1 Sgiliau Cymraeg ar 31 Mawrth 2024:

Disgrifiad	CBSPO - ac eithrio ysgolion				Benyw	Gwryw	Cyfanswm
	Benyw	Gwryw	Cyfanswm	%			
Nifer	2334	746	3080		2387	548	2935
Siarad Cymraeg				Siarad Cymraeg			
0 - Dim sgiliau	1165	371	1536	49.87%	363	85	448
A1 - Lefel Mynediad	514	164	678	22.01%	396	79	475
A2 - Lefel Sylfaenol	3	1	4	0.13%	0	0	0
B1 - Lefel Ganolradd	53	16	69	2.24%	86	13	99
B2 - Lefel Uwch	0	1	1	0.03%	0	0	0
C1 - Lefel Rhuglder	94	25	119	3.86%	143	23	166
C2 - Cwbl Rugl	0	2	2	0.06%	0	0	0
Heb Ddatgan	504	166	670	21.75%	1398	348	1746
Gwell ganddynt beidio â dweud	1	0	1	0.03%	1	0	1

Disgrifiad	CBSPO - ac eithrio ysgolion				Benyw	Gwryw	Cyfanswm
	Benyw	Gwryw	Cyfanswm	%			
Nifer	2334	746	3080		2387	548	2935

Darllen Cymraeg				
0 - Dim sgiliau	1144	370	1514	49.16%
A1 - Lefel Mynediad	515	160	675	21.92%
A2 - Lefel Sylfaenol	3	0	3	0.10%
B1 - Lefel Ganolradd	66	24	90	2.92%
B2 - Lefel Uwch	0	1	1	0.03%
C1 - Lefel Rhuglder	100	21	121	3.93%
C2 - Cwbl Rugl	0	2	2	0.06%
Heb Ddatgan	505	168	673	21.85%
Gwell ganddynt beidio â dweud	1	0	1	0.03%

Darllen Cymraeg		
353	85	438
399	76	475
0	1	1
97	13	110
0	0	0
139	24	163
0	0	0
1398	349	1747
1	0	1

Disgrifiad	CBSPO - ac eithrio ysgolion			
	Benyw	Gwryw	Cyfanswm	%
Nifer	2334	746	3080	
Ysgrifennu Cymraeg				
0 - Dim sgiliau	1274	427	1701	55.23%
A1 - Lefel Mynediad	411	109	520	16.88%
A2 - Lefel Sylfaenol	3	0	3	0.10%
B1 - Lefel Ganolradd	49	21	70	2.27%
B2 - Lefel Uwch	0	1	1	0.03%
C1 - Lefel Rhuglder	92	18	110	3.57%
C2 - Cwbl Rugl	0	2	2	0.06%
Heb Ddatgan	504	168	672	21.82%
Gwell ganddynt beidio â dweud	1	0	1	0.03%

Benyw	Gwryw	Cyfanswm
Ysgrifennu Cymraeg		
407	92	499
364	71	435
0	1	1
84	13	97
0	0	0
132	22	154
0	0	0
1399	349	1748
1	0	1

Disgrifiad	CBSPO - ac eithrio ysgolion			
	Benyw	Gwryw	Cyfanswm	%

Benyw	Gwryw	Cyfanswm

Nifer	2334	746	3080		2387	548	2935
Gwranddo ar y Gymraeg					Gwranddo ar y Gym		
0 - Dim sgiliau	61	11	72	2.34%	3	0	3
A1 - Lefel Mynediad	41	7	48	1.56%	9	3	12
A2 - Lefel Sylfaenol	3	0	3	0.10%	1	3	4
B1 - Lefel Ganolradd	3	1	4	0.13%	1	1	2
B2 - Lefel Uwch	0	1	1	0.03%	1	0	1
C1 - Lefel Rhuglder	2	0	2	0.06%	0	0	0
C2 - Cwbl Rugl	2	1	3	0.10%	2	0	2
Heb Ddatgan	2219	725	2944	95.58%	2369	541	2910
Gwell ganddynt beidio â dweud	3	0	3	0.10%	1	0	1

Sylwch:

- Mae'r categori 'Ysgolion' yn dangos gweithwyr sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan gyrff llywodraethu. Mae staff cynhwysiant wedi'u cynnwys yn y categori 'CBSPO - ac eithrio ysgolion'.
- Mae'r categori 'Heb Ddatgan' yn dangos cyflogeion sydd heb roi manylion eu sgiliau Cymraeg.
- Mae'r lefelau sgiliau a ddangosir yn seiliedig ar hunanasesiad unigol.
- Mae gan 194 o weithwyr swydd mewn ysgol a swydd 'Pob gwasanaeth arall' ac maent wedi eu cyfrif unwaith yn ôl y swydd â'r nifer fwyaf o oriau contract yn CBSPO.

Nifer y cyflogeion a fynychodd gyrsiau hyfforddiant yn y Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024:

- Mae 12 o weithwyr wedi mynychu hyfforddiant 'Cwrs Mynediad' yn 2023/24, gan eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau iaith ymhellach. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd wrthi'n gwneud blwyddyn 1, yn seiliedig ar ddwy awr yr wythnos dros gyfnod o 30 wythnos.
- Mae 14 o weithwyr wedi cael cefnogaeth i fynychu cyrsiau Cymraeg yn y gymuned. Roedd y cyrsiau hyn yn cynnwys Sylfaen, Sylfaen Rhan 1 a Sylfaen Rhan 2, Sylfaen Rhan 3.

- Ni chafwyd ceisiadau i drefnu bod deunyddiau hyfforddiant wyneb yn wyneb ar gael yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn.
- Cwblhawyd 2165 cwrs e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (Saesneg – 2164, Cymraeg - 1) a 34 cwrs e-ddysgu Safonau'r Gymraeg (Saesneg - 34, Cymraeg - 0).
- Cwblhaodd 548 o weithwyr newydd y modiwl e-ddysgu cynefino corfforaethol, a chwblhaodd 61 o weithwyr newydd y modiwl drwy lyfr gwaith. 609 oedd y cyfanswm a gwblhawyd. Mae'r broses gynefino gorfforaethol yn cynnwys adran ar gyflwyno'r Gymraeg, Safonau'r Gymraeg a dolenni at y modiwlau e-ddysgu Cymraeg a chyfleoedd hyfforddi Cymraeg.
- Cwblhaodd 24 o reolwyr newydd y modiwl e-ddysgu cynefino i reolwyr. Mae'r broses gynefino i reolwyr yn cynnwys Cyflwyniad i'r Gymraeg a Safonau'r Gymraeg, a dolenni at y modiwl e-ddysgu Safonau'r Gymraeg a'r modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

10. Swyddi Newydd a Swyddi Gwag

Nifer y swyddi newydd a swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod 2023/24 lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn:

Categori	Nifer y swyddi yn y categori	Canran y swyddi yn y categori
Hanfodol	16	1.86%
Dymunol	845	98.14%
Angen dysgu Cymraeg	0	0%
Dim sgiliau Cymraeg yn ofynnol	0	0%

11. Gwasanaethau derbynfya: canolfannau cyswllt a chanolfannau cyswllt dros y ffôn

Y galw am wasanaethau Cymraeg yn y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024

Rhyngweithio wyneb yn wyneb yn Gymraeg	0
Cyfanswm yr ymweliadau	11,539
Ceisiadau Cymraeg fel % o gyfanswm y rhyngweithiadau	0.00%

Y galw am wasanaethau Cymraeg yn y Ganolfan Cyswllt dros y Ffôn rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024:

Nifer y galwadau yn ystod oriau gwaith arferol (Cymraeg a Saesneg)	79,146
Nifer y galwadau a gafwyd y tu allan i oriau arferol (Cymraeg a Saesneg)	1,361
Cyfanswm y galwadau a gafwyd (Cymraeg a Saesneg)	80,507
Nifer y galwadau Cymraeg	122
Ceisiadau Cymraeg fel % o gyfanswm y galwadau	0.15%

Er bod swyddfeydd y cyngor ar agor i gwsmeriaid allu defnyddio gwasanaethau'r cyngor, mae'r galw'n parhau i fod yn isel am wasanaeth wyneb yn wyneb yn unrhyw iaith.

Gostyngodd nifer y ceisiadau teleffoni hyn o 115,671 i 114, 241 (oriau gwaith arferol - Cymraeg a Saesneg). Gostyngodd nifer y galwadau a gafwyd y tu allan i oriau arferol (Cymraeg a Saesneg) hefyd, o 5,112 i 1619.

Gostyngodd nifer y ceisiadau Cymraeg fel % o gyfanswm y cysylltiadau hefyd, o 0.05% i 0.02% (cafwyd problemau gyda'r llinell Gymraeg ar ddechrau 2023).

Mae'r galw gan gwsmeriaid am y sianel ar-lein yn parhau i gynyddu, ac mae hynny wedi effeithio ar y galw gan gwsmeriaid am ein sianeli ffôn ac wyneb yn wyneb.

Mae nifer isel o geisiadau o hyd i gysylltu â ni yn Gymraeg. Mae gennym hefyd nifer isel o staff sy'n gallu siarad Cymraeg. Er ein bod yn gwneud popeth y gallwn, mae recriwtio siaradwyr Cymraeg yn parhau i fod yn anodd.

Yn ogystal â hyn, byddwn hefyd yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'n system IVR i sicrhau ein bod yn cyfeirio galwadau i'r adran gywir, p'un ai y dewisir Cymraeg neu Saesneg. Rydym hefyd yn gweithio gyda rhai gwasanaethau rheng flaen ac yn adolygu eu sianeli i mewn, i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

12. Aseidiadau o Effaith ar Gydraddoldeb (EIAs)

Cynhaliwyd chwe EIA llawn, gan ystyried effeithiau negyddol a chadarnhaol y polisi/strategaeth ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y ddwy iaith yn gyfartal. Ni ddaeth unrhyw effaith negyddol i'r amlwg, felly ni wnaed newidiadau i'r polisiau/strategaethau arfaethedig a aseswyd.

13. Hyrwyddo a gwella ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg

Mae'r cyngor yn falch o fod yn hyrwyddo a dathlu'r iaith Gymraeg, diwylliant Cymraeg ac unrhyw ddigwyddiadau a gynhelir yn lleol i wella proffil yr iaith, yn ogystal â gwella ymwybyddiaeth o'r rhain. Isod, rydym yn rhestru ychydig o'r digwyddiadau a gweithgareddau y gwnaethom eu hyrwyddo rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024:

- Diwrnod Hawliau'r Gymraeg
- Shwmae Su'mae
- Mudiad Meithrin a Cymraeg i Blant
- Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg
- Dydd Gŵyl Dewi
- Dydd Santes Dwynwen
- Cylch chwarae neu ysgol cyfrwng Cymraeg
- Cynnig Gofal Plant Cymru
- Dydd Miwsig Cymru
- Dydd Dylan Thomas
- Dathlu llwyddiant ein hysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg lleol yn sgil eu cyflawniadau drwy'r gwobrau Siarter Iaith.

